# Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen Canfyddiadau Allweddol ynghylch Addysgeg a Dealltwriaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o'r Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 43/2014

Mae'r Cyfnod Sylfaen (a gyflwynwyd yn 2008) yn cynnig cwricwlwm o ddysgu trwy brofiad, sy'n briodol yn ddatblygiadol, i blant 3 i 7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (dan arweiniad WISERD), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yw gwerthuso pa mor dda y caiff ei roi ar waith, beth fu ei effaith, a ffyrdd o'i wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Dyma un o bum papur sy'n canolbwyntio ar **ymarfer**. Mae'n defnyddio 239 o arsylwadau ar ddosbarthiadau a lleoliadau, 341 o gyfweliadau ag ymarferwyr, 604 o ymatebion gan ysgolion a lleoliadau i arolwg, 37 cyfweliad ag Awdurdodau Lleol a phedwar cyfweliad â lleoliadau nas cynhelir.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Canfyddiadau Allweddol**

- Datgelodd arsylwadau o astudiaethau achos fod ymarfer y Cyfnod Sylfaen yn amrywio'n sylweddol ar draws dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn, ysgolion a meysydd dysgu.
- Yn gyffredinol, gwelwyd **addysgeg ymarferol, uniongyrchol** yn aml, ond po hynaf y grŵp blwyddyn, y llai aml yr oedd dulliau addysgu eraill y Cyfnod Sylfaen i'w gweld (e.e. dewis gan y plentyn, gweithgareddau corfforol, dysgu yn yr awyr agored, darpariaeth barhaus).
- At ei gilydd, **dewis gan y plentyn**, **darpariaeth barhaus/estynedig** a **dysgu yn yr awyr agored** a welwyd yn lleiaf aml, a dim ond **gweithgareddau corfforol** ac **archwilio** cymedrol, ac **amrywiaeth cymedrol mewn parthau dysgu** a welwyd.
- Gellir esbonio'r amrywiaeth mewn ymarfer yn rhannol gan **agweddau staff** tuag at y Cyfnod Sylfaen a **chymarebau oedolion a phlant**.
- Dywedodd llawer o ysgolion bod eu hymagwedd at y Cyfnod Sylfaen yn '**esblygu**', yn aml trwy (ail)gyflwyno sesiynau llythrennedd a rhifedd ffurfiol yn y bore mewn ymdrech i sicrhau bod plant yn gallu perfformio'n dda yn y profion darllen a rhifedd a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer Blwyddyn 2.

**Canfyddiadau Allweddol Pellach**

Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol yn deall bod y Cyfnod Sylfaen yn **canolbwyntio ar y plentyn, yn cael ei arwain gan y plentyn, yn ymarferol ac wedi'i seilio ar ddysgu trwy brofiad** ac ar **sgiliau**. Deallodd llawer hefyd fod y Cyfnod Sylfaen yn 'ddysgu trwy chwarae'. Cyfeiriodd rhai ymarferwyr at ddysgu yn yr awyr agored, darpariaeth barhaus ac estynedig neu briodoldeb datblygiadol, ond ychydig a gyfeiriodd at rôl arsylwi.

Nid oedd ymarferwyr i'w gweld yn aml yn **arsylwi ar blant** (fel ffordd o ddarganfod eu diddordebau a monitro cynnydd). Pan fyddent yn gwneud hynny, gwelwyd hyn yn amlach yn ystod darpariaeth â ffocws yn hytrach na darpariaeth barhaus neu estynedig. Nid oedd hyn yn amrywio'n arwyddocaol ar draws grwpiau blwyddyn y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion.

Darganfuwyd bod staff mewn **lleoliadau nas cynhelir a ariennir** yn arsylwi plant yn llai aml na staff mewn ysgolion.

Byddai athrawon yn aml yn dweud bod **ymarferwyr ychwanegol** yn hollbwysig i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (yn enwedig ar gyfer gwaith mewn grwpiau bach), ac arsylwyd arnynt yn defnyddio dulliau addysgu y Cyfnod Sylfaen yn amlach nag athrawon.

Mae'r **cymarebau oedolion a phlant**[1] a argymhellir yn cael eu bodloni'n gyffredinol, a rhagorir arnynt yn aml mewn dosbarthiadau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

Yn gyffredinol, roedd dosbarthiadau gyda llai o blant fesul oedolyn yn **gweithredu** y Cyfnod Sylfaen i raddau helaethach.

Mae **agweddau** athrawon, penaethiaid ac uwch reolwyr tuag at y Cyfnod Sylfaen yn esbonio rhywfaint o'r amrywiaeth mewn ymarfer rhwng dosbarthiadau a rhwng ysgolion.

Mewn rhai o'n hysgolion astudiaethau achos, roedd y Cyfnod Sylfaen yn cael ei

[1] Y cymarebau argymelledig yw 1:8 ar gyfer plant 3-5 oed ac 1:15 ar gyfer plant 5-7 oed.

gyflwyno'n gyson ar draws pob dosbarth perthnasol, ond mewn ysgolion eraill astudiaethau achos, gwelwyd **amrywiaeth** sylweddol rhwng dosbarthiadau.

O holl elfennau'r Cyfnod Sylfaen, y defnydd ar **ddysgu yn yr awyr agored** oedd yn amrywio fwyaf ar draws dosbarthiadau ac ysgolion.

Yn unol â'r gostyngiad yn y defnydd ar y rhan fwyaf o ddulliau addysgu y Cyfnod Sylfaen ar draws y grwpiau blwyddyn, roedd y defnydd ar **addysgu'r dosbarth cyfan, wrth y ddesg, mewn modd traddodiadol** a darpariaeth â ffocws wedi'i harwain gan oedolion, wedi cynyddu'n sylweddol iawn ar draws y grwpiau blwyddyn.

At ei gilydd, gwelwyd **darpariaeth â ffocws wedi'i harwain gan oedolion** yn llawer amlach na darpariaeth barhaus ac estynedig wedi'i harwain gan y plant.

Yr unig faes addysgu y Cyfnod Sylfaen a gynyddodd ar draws y grwpiau blwyddyn oedd **myfyrdod**, efallai oherwydd bod athrawon yn cymryd yn ganiataol bod mwy o allu gan blant hŷn i adolygu eu profiadau dysgu.

Gwelwyd **cydweithio rhwng cymheiriaid** amlaf yn ystod darpariaeth barhaus ac estynedig, a gwelwyd **cyd-adeiladu** a **rhyngweithio cyson** rhwng oedolion a phlant amlaf yn ystod darpariaeth estynedig.

At ei gilydd, dywedodd 57% o athrawon eu bod yn gwneud ymdrech sylweddol i **gynnwys plant yn eu proses gynllunio**. Roedd un o bob pump arall yn gwneud rhywfaint o ymdrech, gyda'r gweddill yn gwneud ychydig iawn o ymdrech, neu ddim ymdrech o gwbl.

Nid oedd gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ar draws ein hysgolion astudiaethau achos wedi amrywio yn ôl **rhanbarth** o Gymru, **iaith** addysgu (Cymraeg/Saesneg), **maint** yr ysgol (nifer ar y gofrestr), **ardal** wledig neu drefol na **statws economaidd-gymdeithasol** (bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim).

Mae trafodaethau gydag ymarferwyr yn awgrymu bod rhai **athrawon yn 'ofni' rhoi'r gorau i**

**ddulliau addysgu ffurfiol traddodiadol**. Caiff hyn ei ddwysau gan yr amgyffrediad bod angen sicrhau bod plant yn perfformio’n dda yn y profion darllen a rhifedd a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer Blwyddyn 2.

Awduron: Samuel Waldron, Mirain Rhys, Chris Taylor (Prifysgol Caerdydd)

ISBN: 978-1-4734-1291-0